# Cynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol a chreu'r canlyniadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol a chreu'r canlyniadau.  Bydd hyn yn cynnwys cadarnhau cyflwr y cleifion milfeddygol a nodi pa brawf diagnostig sy'n ofynnol, nodi'r ardaloedd i gael eu delweddu, prosesu'r ddelwedd ddiagnostig yn gywir a chofnodi'r canlyniadau yn unol â'r gweithdrefnau ymarfer milfeddygol.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer nyrsys milfeddygol cofrestredig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau cyflwr y claf milfeddygol a'r dechneg delweddu diagnostig sy'n ofynnol
2. asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun a chydweithwyr wrth gynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol
3. dewis a gweithredu gweithdrefnau rheoli heintiau ymarfer milfeddygol gofynnol sy'n berthnasol i'r ardal o'r filfeddygfa lle'r ydych yn gweithio
4. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol (PPE) gofynnol a chadarnhau bod y rheiny sydd yn gysylltiedig â'r prawf diagnostig yn cydymffurfio
5. sefydlu ac atal y claf milfeddygol gan ddefnyddio offer a dulliau atal addas
6. nodi'r ardaloedd i gael eu delweddu a chynnal y delweddau diagnostig yn unol â gofynion y llawfeddyg milfeddygol a chyflwr y claf milfeddygol
7. monitro'r claf milfeddygol i ganfod anawsterau tra'n cynnal y delweddau diagnostig
8. sicrhau bod y claf milfeddygol wedi ymlacio a lleihau anesmwythdra corfforol yn yr amgylchedd clinigol
9. dod â'r sesiwn delweddau diagnostig i ben yn unol â gweithdrefnau ymarfer milfeddygol
10. cwblhau cofnodion yn unol â gofynion cyfreithiol ac ymarfer milfeddygol perthnasol
11. prosesu'r ddelwedd ddiagnostig
12. creu delweddau diagnostig o'r ansawdd gofynnol gan y filfeddygfa
13. gwirio ansawdd y ddelwedd ddiagnostig a sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi yn erbyn y claf milfeddygol a nodwyd yn unol â gweithdrefnau'r filfeddygfa
14. nodi unrhyw ganlyniadau delweddau diagnostig annilys a sicrhau camau adferol
15. cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol iechyd a lles anifeiliaid
16. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
pam y mae'n bwysig cadarnhau pa ardal o'r claf milfeddygol sy'n cael ei archwilio a pha dechneg delweddau sy'n ofynnol
2.
sut i asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun a chydweithwyr wrth gynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol
3.
y gweithdrefnau rheoli heintiau ymarfer milfeddygol gofynnol sy'n berthnasol i'r ardal o'r filfeddygfa lle'r ydych yn gweithio
4.
y mathau o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sy'n ofynnol ar gyfer cynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol
5.
sut i sefydlu ac atal mathau gwahanol o gleifion milfeddygol
6.
sut i sicrhau bod y technegau diagnostig cywir yn cael eu cymhwyso
7.
sut i gynnal mathau gwahanol o ddelweddau diagnostig
8.
pwysigrwydd monitro cleifion milfeddygol yn ystod delweddau diagnostig a phryd i hysbysu aelodau o'r tîm milfeddygol ynghylch unrhyw bryderon
9.
sut i sicrhau bod y claf milfeddygol wedi ymlacio a lleihau anesmwythdra corfforol mewn amgylcheddau clinigol
10.
pwysigrwydd lleoliad, cyfarwyddiadau anatomeg, cyflinelliad, canoli a labelu wrth gynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol
11.
pa addasiadau i amodau amgylcheddol sydd eu hangen ar gyfer mathau gwahanol o gleifion milfeddygol
12.
sut i greu'r ddelwedd a gofnodwyd i ansawdd diagnostig gofynnol ymarfer

milfeddygol

13.

y dogfennau y mae'n rhaid eu llenwi ar ddiwedd y sesiwn delweddau diagnostig

14.

gweithdrefnau'r filfeddygfa ar gyfer dadansoddi a chofnodi canlyniadau

15.

pam y mae'n bwysig bod y canlyniadau yn cyfateb â'r claf milfeddygol cywir

16.

y dulliau ar gyfer atal halogiad wrth greu canlyniadau

17.

yr arwyddion o ganlyniadau annilys a namau sydd yn digwydd a'r camau adferol

18.

eich cyfrifoldebau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol

19.

eich cyfrifoldebau proffesiynol fel nyrs filfeddygol gofrestredig

20.

eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes perthnasol

LANRVN14

Cynnal delweddau diagnostig ar gleifion milfeddygol a chreu'r canlyniadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANRVN20 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Nyrs milfeddygol |
| **Cyfres/Set** | Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Ategol |
| **Geiriau Allweddol** | delweddau diagnostig; radiograffeg |